# Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer 2025-2030

17 Ebrill a 10 Gorffennaf 2024

---

## Tudalen cynnwys

**Trosolwg** .... 3
**Adran 1: Addas ar gyfer y Dyfodol – myfyrdodau ar ein strategaeth bresennol** 5
**Adran 2: Y cyd-destun strategol** .... 7
**Adran 3: Sylfeini ein strategaeth – ein gweledigaeth a'n cenhadaeth** .... 10
**Adran 4: Amcanion strategol arfaethedig** .... 12
**Adran 5: Ceisio eich barn** .... 17
**Adran 6: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad** .... 21

## Trosolwg

### Yr hyn rydym ni'n ei wneud

1. Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 33,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optometryddion dan hyfforddiant, optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant a busnesau optegol wedi'u cofrestru gyda ni. Gelwir y grwpiau ar ein cofrestr yn gofrestryddion. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: https://www.optical.org.

2. Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

   - gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad;
   - cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
   - cadw cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n addas i redeg busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi;
   - ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestryddion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar ein strategaeth ddrafft ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2030.

4. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 17 Ebrill a 10 Gorffennaf 2024, a gallwch ymateb naill ai drwy ddefnyddio ein platfform ymgynghori ar-lein neu drwy anfon neges e-bost at consultations@optical.org.

### Pam rydym ni'n gwneud hyn nawr

5. Mae ein strategaeth bresennol, 'Addas ar gyfer y dyfodol', yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2025.[1]

6. Buom yn ymgynghori ar ein strategaeth ddiwethaf cyn ei chwblhau'n derfynol ac rydym yn ddiolchgar am yr holl sylwadau a gawsom. Rydym yn ymgynghori ar ein strategaeth newydd nawr, er mwyn i randdeiliaid allu siapio'r cynllun wrth iddo ddatblygu ac er mwyn i ni allu cwblhau'r cynllun mewn da bryd ar gyfer y cyfnod strategol newydd, sy'n dechrau ym mis Ebrill 2025.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

7. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor am 12 wythnos.

8. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r holl sylwadau rydym wedi'u cael ac yn nodi a oes angen i ni wneud newidiadau i'n strategaeth.

[1] Addas ar gyfer y dyfodol - cynllun strategol 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2025 | CyngorOptegolCyffredinol

Byddwn yn gofyn i'n Cyngor gymeradwyo'r strategaeth derfynol, ynghyd â dogfen yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad a'r newidiadau rydym yn eu gwneud mewn ymateb.

9. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein strategaeth newydd ddechrau 2025, ynghyd â strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI).

**Adran 1: Addas ar gyfer y Dyfodol – myfyrdodau ar ein strategaeth bresennol**

10. Roedd ein strategaeth, 'Addas ar gyfer y dyfodol', ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2025, yn disgrifio'r hyn roeddem yn bwriadu ei wneud i gyflawni ein gweledigaeth o gael ein cydnabod am fod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

11. Yn 2023, fe wnaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol asesu bod y Cyngor Optegol Cyffredinol, am y tro cyntaf mewn ychydig o dan ddegawd, wedi bodloni pob un o'r 18 o Safonau Rheoleiddio Da'r PSA. Gwnaethom gynnal y cyflawniad hwn yn 2024, gan fodloni'r holl safonau am yr ail flwyddyn yn olynol. Yn y ddau asesiad, roedd y PSA yn tynnu sylw'n benodol at y gwelliannau a wnaed i'r amser y mae'n ei gymryd i symud achosion ymlaen drwy ein system addasrwydd i ymarfer a'n perfformiad cryf o ran EDI.[2]

12. O dan ein strategaeth bresennol, rydym:

- Wedi cwblhau ein hadolygiad strategol o addysg ac wedi cyhoeddi gofynion addysg a hyfforddiant (ETR) wedi'u diweddaru. Mae'r rhain yn sicrhau bod y cymwysterau rydym yn eu cymeradwyo yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Maent hefyd yn sicrhau bod gan weithwyr optegol proffesiynol y lefel ddisgwyliedig o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad, a'r hyder a'r gallu i gadw i fyny â newidiadau i rolau, cwmpasau ymarfer ac ail-ddylunio gwasanaethau yn y dyfodol, mewn tirwedd sy'n newid yn gyflym ar draws pedair gwlad y DU.
- Wedi cefnogi'r sector yn ei daith i weithredu'r ETR, gan gynnwys hwyluso cydweithrediadau sy'n seiliedig ar wybodaeth yn y sector optegol.
- Wedi cyflwyno cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) newydd, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd a chwmpas ar gyfer datblygiad proffesiynol optometryddion ac optegwyr cyflenwi.
- Wedi cyflawni un o'n gweithgareddau ymgysylltu mwyaf sylweddol ar draws y sector, gyda'n galwad am dystiolaeth ar Ddeddf Optegwyr 1989 a pholisïau cysylltiedig. Cyflwynodd hyn nifer o ystyriaethau hollbwysig ar gyfer dyfodol y proffesiynau a reoleiddir gan y GOC ac iechyd llygaid yn ehangach.
- Wedi recriwtio cymdeithion Cyngor newydd i roi cyfle i gofrestryddion yn gynnar yn eu gyrfaoedd i gael mewnwelediad ac i ennill profiad o weithio gyda'r Cyngor, ac i'r Cyngor elwa o safbwyntiau ffres ac amrywiol.

[2] Adolygiad PSA yn dod i'r casgliad bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn bodloni'r holl Safonau Rheoleiddio Da | Cyngor Optegol Cyffredinol a bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn bodloni'r holl Safonau Proffesiynol ar gyfer Rheoleiddio Da ar gyfer yr ail flwyddyn yn olynol | Cyngor Optegol Cyffredinol

- Wedi gwneud gwelliannau sylweddol i amseroldeb achosion addasrwydd i ymarfer, fel ein bod bellach wedi cyflawni Safonau Rheoleiddio Da y PSA ac wedi cyflwyno protocol ymarfer anghyfreithlon newydd.
- Wedi cyhoeddi datganiad gwrth-hiliaeth fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i wreiddio gwrth-hiliaeth yn ein polisïau a'n harferion, a defnyddio'r data rydym yn ei gasglu, sydd wedi gwella'n sylweddol, i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.
- Wedi buddsoddi yn ein trawsnewidiad digidol, i sicrhau bod ein gweithrediadau rheoleiddio, cyfathrebu a mewnol yn cael eu cefnogi gan ddefnydd effeithlon ac effeithiol o dechnoleg, gan gynnwys lansio gwefan newydd.
- Wedi gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid ac wedi cyflawni'r Safon Rhagoriaeth i Gwsmeriaid.
- Wedi cyflwyno strwythur cyfarwyddiaeth newydd a model gweithredu wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys buddsoddi yn ein pobl a'n prosesau.

## Adran 2: Y cyd-destun strategol

13. Roedd 2020 yn gyfnod digynsail i'r proffesiynau a'r gwasanaethau gofal llygaid. Ni fyddem wedi gallu rhagweld y byddai ein strategaeth ar gyfer 2020-2025 wedi cael ei chyhoeddi mewn amgylchiadau mor eithriadol. Roedd y pandemig wedi cyflymu'r newidiadau a oedd eisoes yn digwydd, er enghraifft, y cynnydd yn y defnydd o dechnolegau digidol a phatrymau newidiol y gweithlu.

14. Roeddem am sicrhau ein bod yn deall yn llawn y cyd-destun yr ydym yn gosod ein strategaeth newydd ynddo. Fe wnaethom ymgysylltu â'n Cyngor, ein Panel Cynghori, cyrff proffesiynol a chynrychioladol, elusennau sy'n cynrychioli cleifion sydd ag anghenion gofal llygaid, ac eraill. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd eu hadborth ac a fu'n ymgysylltu â ni yn ystod y broses o ddatblygu ein strategaeth. Gwnaethom ychwanegu at y sgyrsiau hynny drwy edrych ar waith ymchwil yn y sector, erthyglau newyddion perthnasol ac adolygu strategaethau rheoleiddwyr eraill a chyrff y sector i weld beth y gallem ei ddysgu.

15. Rydym wedi nodi bod y dylanwadau allanol canlynol yn arbennig o berthnasol i'n gwaith.

### Newidiadau o ran anghenion cleifion a darparu gofal llygaid

16. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at fwy o gyd-forbidrwydd a phryderon iechyd llygaid ac yn fwy tebygol o fod angen gofal cartref, gwasanaethau yn y cartref neu ofal mwy cymhleth.[3] Ar yr un pryd, bydd cleifion yn parhau i ddisgwyl gofal o ansawdd uchel, gan symud tuag at fwy o bartneriaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda gweithwyr gofal llygaid proffesiynol i gynnal eu hiechyd llygaid a chywiro cyfeiliornad plygiant. Gallai argyfwng costau byw parhaus arwain at fwy o anghydraddoldebau iechyd oherwydd nad yw cleifion yn gallu fforddio gofal llygaid priodol neu mae diffyg tryloywder o ran cost gofal yn atal cleifion rhag cael gofal.

17. Offthalmoleg sydd â'r presenoldeb cleifion allanol uchaf o hyd mewn unrhyw arbenigedd a gofnodwyd, ond mae pryderon yn parhau ynghylch gallu'r gweithlu offthalmoleg i barhau i ddarparu gofal mewn ysbytai o ystyried y niferoedd uchel a ragwelir yn y dyfodol.[4] Rydym eisoes yn gweld mwy o gyflyrau llygaid yn cael eu rheoli yn y gymuned, gartref neu mewn lleoliadau eraill i ffwrdd o'r ysbyty, ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau.

### Newidiadau yn y gweithlu, caffael sgiliau a defnyddio

18. Byddwn yn parhau i weld newidiadau i gwmpas ymarfer gweithwyr proffesiynol a chyfleoedd ar gyfer defnyddio mwy ar sgiliau proffesiynol a chlinigol ôl-

[3] Living longer - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[4] Summary Report - Treatment Specialities - NHS Digital

gofrestru uwch i gefnogi'r gwaith o ail-ddylunio gwasanaethau, i gefnogi cleifion i wneud penderfyniadau gofal ar y cyd, neu i allu defnyddio technolegau arloesol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i weithwyr proffesiynol ymgymryd â chymwysterau ôl-gofrestru ychwanegol a chymhwyso sgiliau uwch fel rhagnodi annibynnol i gefnogi gofal cleifion ac ailgynllunio gwasanaethau. Gallai hyn hefyd greu heriau i gyflogwyr, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr o ran cynnal goruchwyliaeth, lleihau risg a sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni.

19. Gall prinder gweithlu fynd yn fwy dybryd ar adeg pan fo'r galw'n cynyddu. Gall newid parhaus mewn patrymau gweithio, fel mwy o feddygon locwm a gweithio rhan-amser, a dewis lleoliad daearyddol, leihau maint effeithiol y gweithlu, hyd yn oed os bydd niferoedd y cofrestryddion yn cynyddu'n gyson. Bydd lles y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yng nghyd-destun data arolwg GOC sy'n dangos gorflinder a dadrithiad sylweddol yn y proffesiwn, yn ogystal â lefelau brawychus o aflonyddu, bwlio, cam-drin a gwahaniaethu gan gleifion, cydweithwyr a rheolwyr.[5]

### Arloesi a thechnoleg

20. Disgwylir i ddatblygiadau gwyddonol fel dilyniannu DNA ar enedigaeth, therapi a golygu genynnau, nanofeddygaeth, meddygaeth bôn-gelloedd, a chyrff clyfar alluogi gofal mwy personol a dylai wella'r gwaith o atal, canfod a thrin llawer o gyflyrau cyffredin y llygaid yn gynnar.

21. Bydd technoleg yn parhau i alluogi newidiadau mewn gofal llygaid, gan alluogi mwy o ofal llygaid digidol, rhithwir neu o bell, a allai arwain at fwy o gystadleuaeth neu ddarparu gwasanaethau'n rhyngwladol i'r DU. Gallai cynyddu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI), yn enwedig wrth ddiagnosio cyflyrau neu wrth sgrinio neu frysbennu cleifion, weld cyflyrau'n cael eu diagnosio'n gynharach, ond mae angen gweithlu sy'n deall y dechnoleg honno. Rydym hefyd yn disgwyl gweld mwy o awtomeiddio, gan ymgymryd â rhai tasgau a gyflawnir gan weithwyr proffesiynol neu ar gyfer ymgysylltu a chynghori cleifion ar ffurf bot sgwrsio.

22. Byddwn yn parhau i weld newidiadau yn y farchnad gofal llygaid. Gall practisau annibynnol newid modelau busnes a symud i ymuno â rhwydweithiau neu fasnachfreintiau mwy. Efallai y byddwn hefyd yn gweld mwy o bractisau'n dewis peidio â darparu gwasanaethau'r GIG mwyach. Ar y llaw arall, efallai y bydd mwy o bractisau'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwell gofal llygaid, gydag amrywiaeth o gynlluniau ar gael yn y pedair gwlad.

### Datblygiadau rheoliadol, gwleidyddol a rhyngwladol

23. Mae ailwampio'r Ddeddf Optegwyr yn addo ehangu a datblygu'r maes rheoleiddio busnes, rhoi mwy o ryddid i ni wneud rheolau a symud ein model

[5] Arolwg Cofrestryddion GOC 2023

llywodraethu i fwrdd unedol.[6] Nid yw'r amserlen ar gyfer y gwaith yn hysbys o hyd, er ein bod yn disgwyl i'r gwaith ddigwydd yn ystod oes y strategaeth hon. Byddwn yn parhau i gyflawni ein pedair prif swyddogaeth statudol, a byddwn yn cynyddu ein rôl o ran rheoleiddio rhagweithiol, gan atal niwed cyn iddo ddigwydd, drwy gasglu, dadansoddi a nodi ymatebion priodol yn well.

24. Gallai Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 arwain at ddiwygiadau i agweddau penodol ar reoleiddio gofal iechyd. Mae ymateb y Llywodraeth i ymchwiliadau annibynnol blaenorol yn parhau, a allai arwain at newidiadau mewn meysydd fel yswiriant indemniad clinigol a datgan gwrthdaro buddiannau gweithwyr proffesiynol. Gallai adolygiadau eraill gan y Llywodraeth, er enghraifft archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), hefyd arwain at ddiwygio.

25. Gall cytundebau masnach a negodir gan y llywodraeth effeithio ar brosesau cofrestru rhyngwladol. Yn y cyfamser, gall adolygu cyfreithiau sy'n deillio o'r UE mewn meysydd fel diogelu data a hawliau defnyddwyr arwain at ddiwygiadau deddfwriaethol a allai effeithio ar wasanaethau gofal llygaid a gweithrediadau'r GOC.

[6] Galw am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr ac ymgynghoriad ar bolisïau GOC cysylltiedig

## Adran 3: Sylfeini ein strategaeth – ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

26. Mae ein strategaeth arfaethedig yn amlinellu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, i gynnal ein llwyddiant fel rheoleiddiwr sy'n perfformio'n dda, adeiladu ar ein cryfderau a mynd i'r afael â'r meysydd lle rydym yn dymuno gwella. Ein huchelgais o hyd yw bod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf – yn ystwyth, yn gadarn ac yn effeithiol wrth gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio, yn uchel ein parch ymhlith rhanddeiliaid ac yn parhau i fodloni holl Safonau Rheoleiddio Da y PSA.

27. Cefnogir y strategaeth arfaethedig gan y dogfennau canlynol:

- Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)
- Strategaeth Ariannol
- Strategaeth Ddigidol
- Cynllun Pobl
- Fframwaith adrodd ar berfformiad busnes

28. Rydym wedi penderfynu y byddwn yn disgrifio ein cyfeiriad strategol arfaethedig at ddibenion ymgynghori cyhoeddus ar lefel uchel. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno arno, ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn darparu gwybodaeth fanylach am sut y byddwn yn cyflawni pob amcan yn ein cynlluniau busnes blynyddol.

29. Rydym yn disgwyl dechrau'r strategaeth nesaf mewn sefyllfa gref, gyda pherthnasoedd cadarnhaol â rhanddeiliaid, cyllid cadarn, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn iach, ac ar ôl buddsoddi'n helaeth mewn trawsnewid digidol sy'n addo gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein capasiti mewnol i gyflawni'r uchelgais a'r newid yn y dull gweithredu sydd yn y strategaeth gorfforaethol hon, drwy weithredu is-strategaethau ariannol, pobl, digidol ac EDI i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol arfaethedig erbyn 2030.

30. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar feysydd newid, ond rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus ar draws ein swyddogaethau statudol craidd, e.e. cynnal y cofrestrau, cymeradwyo cymwysterau, a rheoli ein gweithrediadau addasrwydd i ymarfer. Yn ogystal, bydd y gwaith o wireddu diwygiadau mawr a gyflawnwyd yn effeithiol yn ystod cyfnod y strategaeth bresennol, e.e. ym maes addysg a hyfforddiant, safonau proffesiynol wedi'u diweddaru a thrawsnewid digidol, yn cael ei gefnogi a bydd addasiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen.

### Gweledigaeth arfaethedig

31. Gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb.

### Y genhadaeth arfaethedig

32. Diogelu’r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel yn y proffesiynau optegol.

## Adran 4: Amcanion strategol arfaethedig

33. Rydym wedi nodi tri amcan allweddol a gynigiwn a fydd yn sail i'n strategaeth:

    - Creu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol
    - Cefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd
    - Atal niwed drwy reoleiddio ystwyth

34. Rydym yn cydnabod bod yr amcanion yn croestorri ac y byddant yn gorgyffwrdd yn naturiol. Er enghraifft, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn yr amcan cyntaf yn rhoi amlygrwydd dyladwy i hyn ond bydd y materion hyn yn torri ar draws ein holl waith.

35. Wrth nodi'r amcanion hyn, rydym wedi ystyried agweddau allanol a mewnol ein gwaith. Mae ffocws allanol i'r ddau amcan cyntaf, ac mae'r trydydd yn canolbwyntio mwy yn fewnol.

**Creu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol**

36. Mae llawer i'w ddathlu am y pum mlynedd diwethaf. Er gwaethaf heriau COVID-19, mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn y cofrestryddion a bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel. Mae pobl yn troi fwyfwy at gofrestryddion am broblemau llygaid fel eu pwynt cyswllt cyntaf, yn hytrach na meddygon teulu. Mae cofrestryddion yn uwchsgilio ac yn ymgymryd â mwy o rolau clinigol, gan alluogi cleifion i gael mynediad at ystod ehangach o wasanaethau gofal llygaid yn eu cymunedau.

37. Er hynny, mae achosion o golli golwg y gellir ei atal yn parhau i fod yn sylweddol. Ac mae tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw llwyddiannau'r pum mlynedd diwethaf yn cael eu rhannu'n gyfartal, gyda rhai grwpiau o gleifion yn wynebu rhwystrau uwch o ran cyrchu gwasanaethau a chanlyniadau gwaeth. Er enghraifft, mae ein harolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd yn dangos bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael prawf golwg. Hefyd, mae pobl ag anableddau yn fwy tebygol o ddweud bod pethau'n mynd o chwith yn ystod eu hymweliad. Mae arolygon allanol wedi tynnu sylw at effaith yr argyfwng costau byw fel rhwystr i gyrchu gofal llygaid. Mae argaeledd gwasanaethau gwell yn amrywio rhwng gwledydd ac o fewn gwledydd.

38. Er bod ein data cydraddoldeb yn dangos bod y sylfaen cofrestryddion yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen, mae ein harolwg o gofrestryddion yn dangos bod profiadau o weithio yn y sector yn anghyfartal. Mae ymddygiad camdriniol, aflonyddu a gwahaniaethu yn uwch yn y sector hwn nag mewn mannau eraill yn y GIG ac yn fwy tebygol o gael eu profi gan rai grwpiau poblogaeth. Rydym mewn perygl o golli gweithwyr proffesiynol da pan fydd y galw am eu gwasanaethau'n cynyddu, ac mae'r amgylcheddau gwaith anniogel y mae'r ymddygiadau hyn yn eu creu yn peryglu diogelwch cleifion.

39. Nid yw problemau o’r fath yn unigryw i’r sector hwn. Mae rheoleiddwyr gofal iechyd eraill yn rhoi mwy o sylw i'r materion hyn, ac mae'r PSA yn gwella ei waith craffu ar reoleiddwyr ar faterion EDI ac yn annog mwy o gyfranogiad wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd EDI yn cael ei wreiddio ar draws ein gwaith a thrwy gydol y cylch bywyd proffesiynol o addysg a hyfforddiant i gofrestru, gosod safonau ac addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, er y gall rheoleiddio gyfrannu’n gadarnhaol at y maes hwn, ni all ddarparu’r holl ddatrysiadau. Gan fod y materion hyn yn strwythurol ac yn amlochrog, bydd angen ymdrech ar draws y sector i fynd i’r afael â nhw, gyda phartneriaeth a chydweithio ar draws llawer o weithredwyr.

40. Bydd y blaenoriaethau yn 2025-2030 o dan y thema hon yn cynnwys:

- defnyddio data a mewnwelediad ymchwil i dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n wynebu'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol;
- defnyddio ein dulliau rheoleiddio i helpu i leihau’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag cyrchu gwasanaethau, cefnogi’r rheini sydd mewn amgylchiadau bregus i gael gofal o ansawdd uchel a mynd i’r afael ag amgylcheddau gwaith negyddol; a
- monitro a mynd i’r afael ag unrhyw gynrychiolaeth anghymesur o grwpiau â nodweddion gwarchodedig ym mhrosesau rheoleiddio’r GOC.

**Cefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd**

41. Mae datblygiadau mewn technoleg, darparu gwasanaethau, modelau busnes, comisiynu a phatrymau gweithio yn newid maes gofal llygaid. Mae’r newidiadau hyn yn cynnig cyfleoedd a heriau y mae’n rhaid i reoleiddio ymateb iddynt.

42. Mae pryderon cynyddol ynghylch prinder gweithlu mewn rhai ardaloedd daearyddol. Drwy wireddu manteision llawn ein diwygiadau addysg a hyfforddiant, meddwl yn strategol am gymwysterau ôl-gofrestru a darparu system fwy hyblyg o DPP, gall rheoleiddio gefnogi’r proffesiynau i dyfu o ran maint a datblygu eu rolau i ddiwallu anghenion gofal llygaid mwy o gleifion.

43. Mae taro’r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi arloesedd cyfrifol, diogelu’r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a’r busnesau rydym yn eu rheoleiddio yn debygol o fod yn thema sy’n codi dro ar ôl tro yn ystod cyfnod o newid cyflym posibl. Mae arloesedd wedi trawsnewid gofal llygaid yn ystod y degawdau diwethaf ac mae datblygiadau yn y dyfodol yn addo lleihau rhwystrau i fynediad a sicrhau canlyniadau gwell. Gan gydbwyso â hyn, wrth i gofrestryddion ymgymryd â gwaith clinigol mwy cymhleth, rhaid i reoleiddio ymateb i broffil risg sy’n newid. Byddwn yn canolbwyntio ar greu fframwaith rheoleiddio hyblyg ac ystwyth sy’n cefnogi arloesedd ar yr un pryd â chynnal y mesurau diogelu angenrheidiol.

44. Bydd diwygio’r Ddeddf Optegwyr yn moderneiddio ein dull o reoleiddio busnes ac yn llenwi bylchau pwysig o ran diogelu’r cyhoedd. Bydd diweddaru ein safonau busnes yn flaenoriaeth gynnar yn ystod cyfnod y strategaeth. Bydd diwygio deddfwriaethol hefyd yn rhoi rhyddid i ni wneud a diwygio ein rheolau ein hunain, rhai ohonynt heb newid ers blynyddoedd lawer, gan ein gwneud yn fwy abl i gefnogi’r sector i addasu i amgylchedd sy’n newid.

45. Bydd y blaenoriaethau yn 2025-2030 o dan y thema hon yn cynnwys:

- cefnogi cofrestryddion i ddarparu gofal llygaid mwy clinigol drwy wireddu manteision llawn ein diwygiadau addysg a hyfforddiant a mabwysiadu dull mwy strategol o ymdrin â chymwysterau ôl-gofrestru;
- diwygio ein system DPP fel ei bod yn canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na maint datblygiad proffesiynol, ac yn cefnogi’r rolau clinigol estynedig y bydd cofrestryddion yn eu cyflawni wrth ail-ddylunio gwasanaethau; ac
- ymestyn rheoleiddio i bob busnes sy’n cyflawni gweithgareddau cyfyngedig sy’n seiliedig ar safonau wedi’u diweddaru ar gyfer cofrestryddion busnes.

**Atal niwed drwy reoleiddio ystwyth**

46. Bydd ein dull rheoleiddio yn esblygu i fodloni disgwyliadau modern rheoleiddwyr ac i fynd i'r afael â heriau cyfredol. Fel ym maes gofal iechyd, mae atal niwed cyn iddo godi yn well na thrin problemau ar ôl y ffaith ym maes rheoleiddio. Bydd y ffocws hwn ar atal yn torri ar draws ein gwaith sy’n seiliedig ar gryfhau ein dull o ymdrin â data a gwybodaeth, a throsi hyn yn gamau gweithredu effeithiol. Yn gysylltiedig â hyn, byddwn yn rhoi arweiniad rhagweithiol ar faterion amserol ac yn cydweithio ar ddatrysiadau i faterion sy’n wynebu’r sector.

47. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i rannu ein data cofrestru ac arolygu i gefnogi comisiynwyr i gynllunio gwasanaethau’n well, ac i gleifion ddod o hyd i’r ystod ehangach o wasanaethau sydd bellach yn cael eu darparu gan gofrestryddion yn eu cymunedau, ac elwa ohonynt.

48. Mae ymchwiliadau i ofal cleifion gwael yn aml yn tynnu sylw at fethiant i wrando ar bryderon cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn y pen draw, mae’r GOC yn bodoli i ddiogelu’r cyhoedd, felly rydym yn dymuno cryfhau llais y defnyddiwr ar draws ein gwaith, gan ein galluogi i roi buddiannau’r cyhoedd a chleifion wrth galon rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys deall safbwyntiau a phrofiadau’r cyhoedd a chleifion yn well drwy’r gwaith ymchwil rydym ni’n ei gomisiynu, meithrin ein perthynas â sefydliadau sy’n cynrychioli’r grwpiau hyn, a sicrhau bod y buddiannau hyn ar flaen y gad wrth siapio’r penderfyniadau rydym ni’n eu gwneud.

49. Byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer diwygio’r Ddeddf Optegwyr yn ddeddfwriaethol, er nad yw’r amseru’n hysbys. Ar ben hynny, efallai y bydd

gofynion y Comisiwn Elusennau, safonau PSA diwygiedig a gyrwyr allanol eraill yn gofyn am newidiadau i’n llywodraethu, ein rheolaeth ariannol a’n model gweithredu. Er eu bod yn aml yn anweledig i randdeiliaid, mae’r trefniadau hyn yn darparu’r sylfeini cadarn sy’n sail i’n holl weithgareddau.

50. Bydd y blaenoriaethau yn 2025-2030 o dan y thema hon yn cynnwys:

- rhoi’r cyhoedd a chleifion wrth galon ein dull rheoleiddio drwy fuddsoddi mwy yn ein gweithgareddau ymchwil, ymgysylltu’n well â grwpiau cleifion a chryfhau llais y defnyddiwr yn ein strwythurau gwneud penderfyniadau;
- newid i fodel rheoleiddio sy’n fwy rhagweledol ac sy’n ceisio atal niwed, ar sail dull sy’n seiliedig ar risg, sy’n cael ei yrru gan ddata, sy’n cyfuno ein gwybodaeth a’n dealltwriaeth, ac sy’n trosi hyn yn gamau gweithredu effeithiol;
- cefnogi’r gwaith o gynllunio’r gweithlu a dewis cleifion drwy gasglu data gwell am gofrestryddion a gwella sut rydym yn cyhoeddi ac yn rhannu hyn ag eraill; a
- newid ein trefniadau llywodraethu a phrosesau mewnol eraill mewn ymateb i ddiwygio deddfwriaethol, gan gynnwys drwy greu bwrdd unedol ac adolygu strwythur ein pwyllgor cynghori.

## Adran 5: Ceisio eich barn

51. Isod, rydym wedi nodi rhai cwestiynau i chi eu hystyried.

52. Rydym wedi gofyn cwestiynau 9-11 i brofi ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, sy'n anelu at hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.[7]

**C1. Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth, sef 'gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb'?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Esboniwch eich rhesymeg.**

**C2. Ydych chi'n cytuno â'n cenhadaeth i 'warchod y cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid'?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Esboniwch eich rhesymeg.**

**C3. A oes unrhyw ddatblygiadau eraill rydym wedi'u methu o'n dadansoddiad o'r cyd-destun strategol yn adran 2?**

**Oes**

**Nac oes**

**Ddim yn siŵr**

**Os oes, esboniwch y datblygiadau sydd ar goll.**

[7] Comisiynydd y Gymraeg, 2023, Safonau'r Gymraeg, Safonau'r Gymraeg (comisiynyddygymraeg.cymru)

**C4. Ydych chi'n cytuno â'r amcan strategol i 'greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol'?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Esboniwch eich rhesymeg.**

**C5. Ydych chi'n cytuno â'r amcan strategol i 'gefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd'?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Esboniwch eich rhesymeg.**

**C6. Ydych chi'n cytuno â'r amcan strategol i 'atal niwed drwy reoleiddio ystwyth'?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Esboniwch eich rhesymeg.**

**C7. Ydych chi'n credu y gallai unrhyw un o'n themâu strategol effeithio ar unrhyw unigolion neu grwpiau sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Os ydych, esboniwch sut.**

**C8. Ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw un o'r themâu strategol effeithio ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol?**

**Ydw**

**Nac ydw**

**Ddim yn siŵr**

**Os ydych, esboniwch sut.**

**C9. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Byddant**

**Na fyddant**

**Ddim yn siŵr**

**Os byddant, esboniwch eich rhesymeg.**

**C10. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Byddai**

**Na fyddai**

**Ddim yn siŵr**

**Os byddai, esboniwch sut.**

**C11. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Byddai**

**Na fyddai**

**Ddim yn siŵr**

**Os byddai, esboniwch eich rhesymeg.**

**C12. A oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried fel rhan o ddatblygiad ein strategaeth?**

**Oes**

**Nac oes**

**Ddim yn siŵr**

**Os oes, esboniwch eich rhesymeg.**

## Adran 6: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

53. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 17 Ebrill a 10 Gorffennaf 2024.

54. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno eich ymatebion i'n canolfan ymgynghori er mwyn i ni allu casglu gwybodaeth amdanoch chi neu eich sefydliad ac a oes modd cyhoeddi eich ymateb.

55. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy anfon neges e-bost at consultations@optical.org.